

# Mil Henffych Fore Wawr gan Mari Ellis

Ymddangosodd y garol swynol hon gyntaf yn y flwyddyn 1867 mewn llyfr o garolau Nadolig gan Owen Jones, Pentrefoelas. Cynnwys y llyfr un ar bymtheg o garolau, y geiriau o waith beirdd megis Eben Fardd, Dafydd Ddu Eryri ac Elis Wyn o Wyrfaï. Mae rhai o'r tonau'n waith Owen Jones a 'Mil Henffych' yn un ohonynt.

Clywais y garol am y tro cyntaf pan ymddangosodd yn llyfr Gŵyl Gorawl esgobaeth Bangor yn 1933. Yr un a oedd yn gyfrifol am ei chynnwys yno oedd Ceridwen Lloyd Davies. Atgyfododd hi amryw o hen garolau a anghofiawyd, megis 'Carol y Bwlch', 'Awn i Fethlehem bawb dan ganu' ac 'Ar gyfer heddiw'r bore'. Dibynnai eglwyswyr y cyfnod ar adran carolau Nadolig yn *Emyniadur yr Eglwys*; cyhoeddwyd hwy yn llyfr yn hwylyus ar wahân. Ond yr oedd llawer ohonynt yn gyfieithiadau o garolau Saesneg poblogaidd. Nid bod dim o'i le ar hynny, ond ni chawsom gyfle i ddsygu'r rhai Cymraeg oedd eisoes yn bod.

Mae'n amlwg i Owen Jones deimlo y byddai ei lyfr carolau'n diwallu angen ar y pryd. Yr oedd y rhan fwyaf o'r hen garolau Plygain yn rhai meithion, anaddas ar gyfer cynulleidfa eglwysig. Sut bynnag, perthynai'r mwyafrif ohonynt i deuluoedd arbennig neu i unigolion, ac weithiau i blwyfi neilltuol. Yr hyn a ddymunai cynulleidfa eglwysig oedd cael carolau mwy tebyg o ran ffurf i emynau a dyna a geir yn netholiad Owen Jones.

Yn y flwyddyn 1951 cyhoeddwyd *Emynau'r Eglwys*, y llyfr tonau. (Daethai'r argraffiad geiriau allan o'r Pwyllgor Cerdd, a gwelir pump o garolau o lyfr Owen Jones yn *Emynau'r Eglwys*, sef

1. 'Pa beth yw'r canu melus-ber', geiriau Nicander allan o'r *Flwyddyn Eglwysig*.
  2. 'Daeth y ceidwad, llawenhawn', y dôn Pentrefoelas o waith Owen Jones a'r geiriau gan D. Silvan Evans.
  3. 'Deffro ddaear, llawenha', geiriau gan Ceiriog;
  4. 'Yng nghanol gwlad Judea dlos', geiriau Elis Wyn o Wyrfaï;
  5. 'Y bore hwn trwy buraf hedd', geiriau John Thomas, Pentrefoelas.
- Yn llyfr yr *Wyl Gorawl 1936* y dysgais y garol

'Ti yr Hwn yn wael ei drem  
Gaed ym mhreseb Bethlehem...  
a'r flwyddyn wedyn, 1937, yr ymddangosodd

Tramwywn ar gyflym adenydd...  
Rhan-gân i bedwar llais yw hon. Ymddangosodd yn *Cyff Mawddwy*, detholiad o garolau Plygain eglwysig Tydacho Sant, a gasglwyd gan y Canon Geraint Vaughan Jones ac a olygwyd gan Rhiannon Lloyd Williams yn 1982.

Emyn Ystwyll yw  
Herod greulon pam yr ofni  
Eni Brenin Dwyfol draw

## Mil Henffych Fore Wawr

Llyfr Gŵyl Gorawl 1933



Trwy ganiatâd.

Canon Owen Jones, Pentrefoelas.  
Trefniant Ceridwen Lloyd Davies.

Doh F.

d	i	r	r	i	f	s	t	r	d	t	d	r	i	d
s	i	d	s	i	d	t	i	d	d	i	r	i	d	
n	i	s	i	s	i	r	i	d	i	f	s	i	s	
d	i	u	i	u	i	s	i	n	i	f	i	t	i	d

r	i	n	r	t	d	r	n	i	f	s	t	r	d	t	d	r	i	d
t	i	d	s	i	d	t	i	d	d	i	r	i	d					
s	i	d	s	i	d	t	i	d	d	i	r	i	d					
d	i	u	i	u	i	s	i	n	i	f	i	t	i	d				

r	i	n	r	t	d	r	n	i	f	s	t	r	d	t	d	r	i	d
t	i	d	s	i	d	t	i	d	d	i	r	i	d					
s	i	d	s	i	d	t	i	d	d	i	r	i	d					
d	i	u	i	u	i	s	i	n	i	f	i	t	i	d				

A - men


Mil henffych fore wawr;  
Daeth Crist i lawr o'r nef,  
Mewn gwsg o gnawd, yn faban gwan,  
Boed llon ein cân a'n llef.

Rhown floedd hyd enrych nef  
Yng ngeiriau'r anthem glir  
A ganai'r côr i'w Harglwydd Iôr  
Uwch meysydd Bethlem dir.

"Gogoniant byth i Dduw,  
Tangneffod ar y llawr,  
Ac 'wyllys da' - yw llais eich Tad,  
'Eich Ceidwad daeth yn awr'."

Daeth perl o nef y nef  
I'n mysg, yn hardd ei wawr;  
Mor hoffus yw - ei gaffael sydd  
I fyrrd yn elw mawr.

Gogoniant fyth i'r Tad,  
I'r Ysbryd Glân yn un,  
Ac i'r Mab cu a'n prynodd ni,  
Byth, byth boed mawl cytûn; Amen.  
O'r "Gwyllydd," 1834



12

ar y dôn Gwilym gan Owen Jones. Cyfieithiad gan John Williams, Ab Ithel, o'r Lladin yw'r geiriau y mae yn *Emynau'r Eglwys*. Felly hefyd y dôn St Beuno o'i waith ar eiriau Eleasar Roberts:

Mewn stormydd di-ri  
Mor felys i ni  
Yw cofio mai Iesu yw'r bugail.  
Dyma un o'r emynau cyntaf a ddysgais

Pwy oedd Owen Jones? Wedi'i eni ym Modfari yn 1825 symudodd ei rieni i'r Rhyd i fwy pan oedd yn faban. Felly dyna lle treuliodd ei blentyndod. Dywedir mai ei dad oedd warden cyntaf eglwys Gymraeg y dref, eglwys newydd a godwyd pan wnaed y Rhyd yn blwyf annibynnol â Rhuddlan. Yng nghôr yr eglwys hon yr amlygodd y bachgen Owen Jones ei ddawn gerddorol anghyffredin. Teimlodd yr alwad i fod yn offeiriad a derbyniwyd ef i Goleg St Bees yn Cumbria, coleg a sefydlwyd ar gyfer ymgeiswyr am urddau eglwysig na fedrai fforddio mynd i brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt. Bu'n athrofa i nifer o Gymry ar hyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn eu mysg Ieuan Glan Geirionydd a Robert Roberts y Sgolor Mawr. Yn 1849 yr aeth Owen Jones yno, newydd i'r Sgolor Mawr ymadael. Cafodd ei ordeinio yn 1851 a mynd yn gurad i Accrington, lle bu am ddwy flynedd yn fawr ei barch. Ond yr oedd ei dynfa at Gymru a derbyniodd wahoddiad Rowland Williams i fod yn gurad Ysgeifiog, Sir y Fflint.

Fel y sylwoch, carol wedi'i chodi o'r *Gwyllydd* yw 'Mil henffych fore wawr', ac un o brif olygyddion y cylechgrawn hwnnw

(1823-37) oedd Rowland Williams. Di-enw, neu o dan ffugenw yr ymddangosai bron bopeth yn y *Gwyllydd*.

Wedi bod yn Ysgeifiog am ddwy flynedd, penodwyd Owen Jones yn ficer Capel Garmon. Yno daeth i adnabod Mary Anwyl Roberts, a ddaeth yn wraig iddo yn 1859. Bu ganddynt chwech o blant. Yn 1857 derbyniodd Owen Jones fywoliaeth Pentrefoelas, lle bu am 35 mlynedd. Daeth yr eglwys yn adnabyddus am ragoriaeth y canu; credai Owen Jones mai côr eglwysig oedd y lle gorau i ddsygu cerddoriaeth. Yr oedd galw mawr arno i feirniadu mewn eisteddfodau ac ef oedd llywydd Undeb Corawl Eglwysig Dyffyn Clwyd. Yng Nghyfarfoddydd Blynyddol Pentrefoelas, (enw'r eglwys ar gyfarfod pregethu) tyrrau'r bobl yno i fwynhau'r gerddoriaeth lawn cymaint ag i wrando ar yr hoelion wyth.

Yn 1869 cyhoeddwyd *Hymnau Hen a Newydd*, wedi ei olygu gan Shadrach Pryce ac Owen Jones, er nad oedd enw yr un ohonynt ar yr wyneb-ddalen. Gofalu am y tonau yn bennaf a wnaeth Owen Jones. Ficer Ysbyty Ifan oedd Shadrach Pryce ar y pryd; daeth wedyn yn Ddeon Llanclwy.

Pan gynhaliodd Eglwys Loegr y Gynghres Eglwysig yn y Rhyd, gwahoddyd Owen Jones i annerch ar Gerddoriaeth yr Eglwys Gymraeg. Aeth a chôr o 300 o leisiau i'w ganlyn, rhai o Bentrefoelas ac aelodau o gôr y Penrhyn, sir Gaernarfon, a'u cael i ganu emynau ar y tonau Cyfamod, Diniweidrwydd, Meirionnydd, y Groeswen a Hyfrodol. Honnodd mai'r emynau oedd gogoniant caniaeth yr eglwys plwyf a chwynodd nad oedd yr eglwys cadeiriol o ddim cymorth iddynt, gyda'u cyfansoddwyr o Saeson a'u geiriau Saesneg.

Braidd yn hwyr ar y dydd y daethai unrhyw ddyrchafiad eglwysig i ran y person diwyd hwn. Yn 1892 rhoes yr esgob Alfred G. Edwards ganoniaeth yr eglwys gadeiriol iddo, y flwyddyn ddilynol cafodd fywoliaeth Bodelwyddan, a dyfod yn ficer yr eglwys hardd a godwyd gerllaw Castell Bodelwyddan. Bu yno hyd ei farw ar 14 Medi 1900.

Yn *Y Llan*, rhifyn 5 Hydref, ceir disgrifiad o'r orymdaith bedair milltir ar hugain o Fodelwyddan i Bentrefoelas ar ddiwrnod ei angladd. Y tu allan i Bentrefoelas cyfarfu côr yr eglwys a'r cynhebrwng a chanwyd yr emyn 'Mae 'nghyfeillion adre'n myned...' Eto, ar ôl y gwasanaeth yn yr eglwys gorymdeithwyd at y bedd dan ganu emyn-dôn Owen Jones 'Mewn stormydd di-ri'. Diweddyd y gwasanaeth ar lan y bedd gyda'r emyn 'Bydd myrdd o ryfeddodau...'

Wrth i ni ddathlu'r Nadolig eleni gyda charolau, gweddus yw i ni gofio am berson plwyf a wnaeth gymaint i gyfoethogi ein traddodiad carddorol.